**EITEM AR YR AGENDA : 16**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**Mehefin 21ain 2010**

**Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol – Lwfans Gofal ac Aelodau Annibynnol**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Ystyried swm Lwfans Gofal addas i'w dalu i aelodau cymwys, ac ystyried cais gan y Pwyllgor Safonau i dalu lwfans addas i Aelodau Annibynnol.

## Cefndir

2 Yng nghyfarfodydd yr Awdurdod ar 16eg Mawrth a 15fed Mehefin 2009, ystyriwyd argymhellion Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru a'u cymhwysiad i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

3 Bu i'r Awdurdod ystyried a chymeradwyo Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol diwygiedig ar wahân i gyflwyno Lwfans Gofal gan fod angen gwaith archwiliadol pellach ar y mater hwn.

4 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15fed Mehefin 2009 cytunwyd i dalu Lwfans Gofal ond ni phennwyd swm penodol.

5 Cytunodd yr Awdurdod hefyd i "beidio â thalu lwfans" i'r aelodau annibynnol gan fod Aelodau

> "yn teimlo fod gwaith y Pwyllgor Safonau yn lleiafsymiol o gymharu gyda Phwyllgorau Safonau awdurdodau cyfansoddol. **Yn dilyn pleidlais, cytunwyd gan fwyafrif i beidio â chyflwyno lwfans aelodau cyfetholedig."**

## Lwfans Gofal

6 Cynghorir yr Awdurdod i osod y lwfans gofal yn unol â'r lwfans gofal a osodir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol (ble mae hyn yn bodoli). Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn argymell y dylai lefel y Lwfans Gofal sy'n daladwy yn 2010/11 fod hyd at uchafswm o £403 y mis (gyda thalebau'n cael eu darparu ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol).

7 Mae dyletswyddau Aelod o Awdurdod Tân ac Achub yn llai na'r hyn y maent yn ei wneud fel Aelod o'r Cyngor Sir felly mae'n briodol fod y Lwfans Gofal yn cael ei ostwng i adlewyrchu hyn. Awgrymir bod y lwfans gofal yn cael ei osod yn unol â'r gydnabyddiaeth a dderbynnir gan Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub o'i gymharu â lwfans a dderbynnir gan Arweinydd Cyngor Sir, a fyddai'n 25% o'r uchafswm lwfans sydd wedi'i osod gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, hyd at uchafswm o £100 y mis.

## Aelodau Cyfetholedig (Annibynnol)

8 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 16eg Mawrth 2009, awgrymwyd tri opsiwn, fel a ganlyn, ar gyfer aelodau annibynnol:

"Opsiwn 1 – talu dim lwfans

Opsiwn 2 - Darparu lwfans cyfartalog. Mae'r aelodau yma'n derbyn lwfansau teithio a chynhaliaeth yn unig ar hyn o bryd. Mae'r Panel wedi gosod macsima o £1,450 y flwyddyn i Gadeiryddion a £760 i aelodau annibynnol eraill. Mae'r ffigyrau yma'n seiliedig ar y dybiaeth o bedwar cyfarfod y flwyddyn wedi ei luosi gan y ffi ddyddiol bresennol i Gadeiryddion ac Aelodau o Gyrff Noddedig Llywodraeth y Cynulliad Band 2, ac yn achos y Cadeirydd, 2 gyfarfod ychwanegol ar "ddyletswyddau Cadeiryddion".

O ran cymhwyso, gan ystyried fod y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn (cyfarfodydd hanner diwrnod), ac eithrio digwyddiadau hyfforddi, gallai'r lefel o lwfansau gael ei osod ar chwarter yr uchafswm h.y. £362.50 y flwyddyn i Gadeiryddion a £190 i aelodau annibynnol.

Opsiwn 3 – gallai lwfans fod yn daladwy yn seiliedig ar gyfran o gyfanswm aelodaeth yr Awdurdod Tân, er enghraifft 25% o'r lwfans uchaf i Aelod o'r Awdurdod Tân.

Mae Clercod y tri Awdurdod Tân yng Nghymru wedi trafod yr opsiynau yma ac yn argymell mabwysiadu dull cyson drwy Gymru ac mai Opsiwn 2 fyddai orau."

**Ystyriaethau**

9 Dylid ei nodi nad yw lwfans gofal yn cael ei hawlio llawer yng Ngogledd Cymru, felly mae'n debyg mae bychan fydd yr effaith ar y gyllideb, uchafswm o £1200 y flwyddyn.

10 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 4ydd Mai 2010, hysbyswyd yr aelodau fod yr Awdurdod Tân ac Achub (mewn cyfarfod ar 15fed o Fawrth 2010) wedi cytuno i ailystyried cynigiad i roi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau annibynnol. Roedd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cydnabod bod angen i'r gydnabyddiaeth fod yn gymesur â chyfraniad yr unigolyn i'r pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd gyda chylch gwaith llawnach (e.e. adolygiad o'r polisi cwynion) ac mae yna fwy o achos i lwfans fod yn daladwy na sydd wedi bod yn flaenorol.

**Argymhellion**

11 Bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cytuno i:

(i) dalu Lwfans Gofal hyd at uchafswm o £100 y mis i aelodau cymwys o 1af Ebrill 2009; ac

(ii) ystyried cais y Pwyllgor Safonau yn gadarnhaol i dalu lwfans addas i Aelodau Annibynnol, yn cynnwys y Cadeirydd o'r 1af Ebrill 2010.